# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgor 1 & 2**

Dyddiad: Dydd Llun, 20 Mawrth 2023

Amser: 13.30 - 16.00

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/13243

# Hybrid

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau o'r Senedd: | Jenny Rathbone AS (Cadeirydd)<br>Jane Dodds AS<br>Altaf Hussain AS<br>Sarah Murphy AS<br>Sioned Williams AS<br>Ken Skates AS |
| Tystion: | Yr Athro Lina Dancik<br>Isobel Rorison |
| Staff y Pwyllgor: | Rhys Morgan (Clerc)<br>Rachael Davies (Ail Glerc)<br>Angharad Roche (Dirprwy Glerc)<br>Paul Worthington (Ymchwil) |

## 1 Cyflwyniadau, dirprwyon ac ymddiheuriadau

Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau ac nid oedd unrhyw ddirprwyon yn bresennol.

## 2 Papurau i'w nodi

Nododd yr Aelodau y papurau.

2.1 Gohebiaeth gan y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai at y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol ynghylch y Grant Cyfalaf Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr

2.2 Gohebiaeth gan y Dirprwy Weinidog Partneriaeth Gymdeithasol at y Cadeirydd ynghylch y gwelliannau i'r Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru)

2.3 Gohebiaeth gan y Dirprwy Weinidog Partneriaeth Gymdeithasol at y Cadeirydd ynghylch diwygiadau i Femorandwm Esboniadol y Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru)

2.4 Gohebiaeth gan y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad at y Llywydd ynghylch cynnydd y Bil Hawliau

2.5 Gohebiaeth gan y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol at y Cadeirydd ynghylch iteriad nesaf y rhaglen Cartrefi Clyd

2.6 Gohebiaeth gan y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol at y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ynghylch Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol

2.7 Gohebiaeth gan y Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod at y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol ynghylch Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio)

2.8 Gohebiaeth gan y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol, y Gweinidog Newid Hinsawdd, y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol a'r Dirprwy Weinidog Partneriaeth Gymdeithasol ynghylch ymateb y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol i Gyllideb Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023-2024

2.9 Gohebiaeth gan y Pwyllgor Cyllid at y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol ynghylch gwaith craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023-2024

2.10 Gohebiaeth rhwng y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol a'r Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol ynghylch Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio)

## 3 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 (vi) a (ix) i wahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

Derbyniodd yr Aelodau'r cynnig.

## 4 Llythyr drafft at Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol

Trafododd yr Aelodau y llythyr drafft a chytuno arno.

## 5 Cyfiawnder data: y defnydd o ddata personol yn y GIG yng Nghymru - sesiwn friffio ar lafar gan y cynghorydd arbenigol

Cafodd yr Aelodau gyflwyniad gan yr Athro Lina Dencik ac Isobel Rorison.

## 6 Sesiwn â rhanddeiliaid: Cymru Wrth-hiliol

Cyfarfu'r Pwyllgor â rhanddeiliaid i drafod Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol.